## P-05-994 Caniatáu i adeiladau eglwysi ailagor – er enghraifft, ar gyfer addoli ar y cyd

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Philip Cushen, ar ôl casglu cyfanswm o 416 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
I Gristnogion a phobl o gymunedau ffydd eraill, mae addoli ar y cyd yn rhan hanfodol o fywyd crefyddol, nid dim ond rhywbeth ychwanegol.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Mae'r pandemig COVID-19 presennol yn amlwg yn galw am gyfyngiadau eithriadol i ddiogelu iechyd unigolion ac iechyd cymdeithas yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, mae iechyd ysbrydol ac iechyd meddwl pobl grefyddol hefyd yn hynod bwysig, gan arwain at sgil-effeithiau eang ar gymdeithas. Wrth drafod ailagor lleoliadau ymarfer corff, lleoliadau adloniant ac ati, mae hefyd angen rhoi sylw brys i ailagor adeiladau ar gyfer addoli ar y cyd, er mwyn galluogi'r agwedd hanfodol hon ar fywyd i ailddechrau ar gyfer pobl o ffydd grefyddol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Merthyr Tudful a Rhymni
- Dwyrain De Cymru